TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

City & Guilds Foundation in Electrical Installation Level 2

Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu sgiliau a gwybodaeth craidd sy'n ofynnol ar gyfer gosodwaith trydanol. Mae'r cwrs hwn yn rhoi cyfle i chi ddatblygu sgiliau a gwybodaeth craidd, a'r cyfle i symud ymlaen i'n rhaglenni Gosodwaith Trydanol Lefel 2.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Hoffech fod yn osodwr trydanol

... Oes angen cymhwyster lefel-mynediad arnoch

... Hoffech symud ymlaen i'r cwrs Lefel 2

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn gyrfa fel gosodwr trydanol mewn anheddau domestig ac yn chwilio am gymhwyster mynediad a fydd yn

hwyluso symud ymlaen i ddysgu pellach yn y maes.

Ar y cwrs hwn byddwch yn astudio:

- Strwythur y diwydiant adeiladu
- Arferion gweithio diogel sylfaenol
- Mesurau amgylcheddol a chynaliadwyedd mewn anheddau domestig
- Paratoi safleoedd ar gyfer gweithio yn y diwydiant adeiladu
- Weirio a therfyniadau gosodwaith trydanol
- Technegau cynhyrchu ar gyfer gosodwaith trydanol
- Gwyddoniaeth a thechnoleg trydanol

Cewch eich asesu drwy brosiectau ymarferol, profion ysgrifenedig ac ar-lein, a byddwch yn cyflawni:

Lefel 1 mewn Gosodwaith Trydanol

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Er mwyn ymuno â'r cwrs, bydd angen o leiaf 4 TGAU Gradd E neu uwch arnoch, gan gynnwys Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf neu gymhwyster Lefel Mynediad priodol.

Mae'n rhaid i chi fod eisiau gweithio yn y diwydiant adeiladu. Mae'n rhaid cael ymrwymiad llawn i bresenoldeb, ynghyd â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunangymhelliant. Cewch eich asesu yn barhaus a disgwylir i chi barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn eich amser eich hun.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth sy'n digwydd nesaf?

Diploma Lefel 2 mewn Gosodwaith Trydanol, prentisiaeth neu gyflogaeth.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen i chi ymgymryd ag asesiad diwydiant adeiladu er mwyn penderfynu ar y cwrs mwyaf priodol